

Merched Y Wawr – Cangen Llannau'r Tywi

Gwesty Pant yr Athro oedd lleoliad cyfarfod cynta'r tymor i gangen Llannau'r Tywi ym mis Medi. Cyflwynodd Gwyneth Stephens ein gwestai Huw Michael, brodor o Aberteifi sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin. Ar ôl ennill ei radd yng Ngholeg Imperial, Llundain, cafodd yrfa eang ym maes tanwydd gan arbenigo yn y diwydiant olew. Dechreuodd ym mhurfeydd olew Aberdaugleddau cyn symud i fyw a gweithio mewn sawl ardal o'r byd megis gwlad Belg, Nigeria, Texas ac Indonesia. Mae i'w glywed ar Radio Cymru yn rhannu ei arbenigedd, pan mae trafodaeth ar danwydd. Yn ei ardegau oedd yn chwaraewr rygbi brwd gan gynrychioli ei dref enedigol fel bachwr, ond erbyn hyn chwarae golff sy'n ennyn ei ddiddordeb.

Heb os, 'roedd y gwaith yn Indonesia wedi bod yn dipyn o brofiad i'r teulu, a soniodd am yr atgofion sydd ganddynt o fyw yn y brifddinas, Jakarta ar ynys Java. 'Roedd Huw a'r tîm o'r cwmni olew wedi cael y dasg o adeiladu maes olew yn Java a'r cam pwysig cyntaf oedd prynu'r tir er mwyn gallu gosod y pibau i gario'r olew. 'Roedd angen trafodaethau manwl rhwng y cwmni olew a'r 3,000 o wahanol bobl oedd berchen ar ddarnau bach o dir, a chymerodd y broses pedair blynedd i'w cwblhau.

Wrth reswm, roedd angen ymdopi â'r bywyd gwahanol a dysgu rhywfaint o'r iaith genedlaethol, Bahasa Indonesia. Mae nifer o ieithoedd eraill ar draws ynysoedd Indonesia, ond 'roedd y trafodaethau busnes yn Saesneg. 'Roedd y ffaith fod dyn busnes gwyn yn gorfod cyflogi gyrrwr a gwarchodwraig ar gyfer diogelwch y teulu, yn sicrhau swydd i bobl Indonesia. Cawsant gyfle i ymaelodi â gwahanol gymdeithasau ond dim ond unwaith y flwyddyn 'roedd Cymdeithas Dewi Sant yn cyfarfod, a hynny i ddathlu gwyl ein nawdd sant.

Oherwydd y miliynau o bobl sydd yn byw yn Jakarta 'roedd gweld lluniau o'r drafnidiaeth yn tanlinellu'r ffaith bod defnyddio motor beic dwy neu dair olwyn i gludo'r teulu, yn ffordd fwy addas i bobl leol fynd o le i le. Clywsom hefyd am y gwahanol fathau o grefydd oedd yn bodoli, gyda'r Mwslemiaid yn cael eu galw i weddio pum gwaith y dydd ac yn ymprydio am fis, adeg Ramadan. Ar yr adeg yma, 'roedd y gweithwyr yn cael y cyfle i fynd nôl i'w pentrefi at eu teuluoedd. Cawsom weld enghreifftiau o Batik, yn dangos ysblander defnyddiau traddodiadol y wlad ble mae cwyr yn cael ei ddefnyddio i greu patrymau amryliw.

Diolchodd Jane Davies i Huw am rannu ei brofiadau gyda ni, a thrwy wneud, cynnig cip olwg a blas ar fywyd lliwgar a phrysur y wlad hon ben draw'r byd. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Hydref 17eg ym Mhant yr Athro ac fe fydd croeso cynnes i aelodau newydd.